# PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD LLUN, 26 MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lay, Lister, Littlechild, Naughton a/ac Taylor |
| Swyddogion yn bresennol | Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant) |
| Cynghorwyr yn bresennol | Deborah Williams (Rhith-Bennaeth), Candice Lloyd (NYAS Rheolwr Gwasanaeth), Becci Ingram (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) |

## 26 : PENODI CADEIRYDD A PHWYLLGOR

PENDERFYNWYD:

Nodi bod y Cyngor, yn ei gyfarfod Blynyddol, wedi penodi'r Cynghorydd Sarah Merry yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023-2024 a'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor:

Y Cynghorwyr Ash-Edwards, Kaaba, Lay, Lewis, Lister, Littlechild, Naughton a Taylor.

## 27 : CYLCH GORCHWYL

PENDERFYNWYD:

Nodi'r Cylch Gorchwyl

## 28 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ash-Edwards, Lewis a Kaaba.

## 29 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 30 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2023 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 31 : YMGYRCH/ADDEWID MAE FY MHETHAU O BWYS

Gwahoddodd y Cadeirydd Candice Lloyd, o'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (GEIC), i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar yr Ymgyrch a'r Addewid Mae Fy Mhethau o Bwys (a gynhwysir yn Atodiad A). Anogwyd aelodau'r

Pwyllgor i lofnodi addewid Mae Fy Mhethau o Bwys y GEIC er mwyn gwella profiad plant a phobl ifanc wrth symud i leoliadau gwahanol - hyd yma roedd cyfanswm o 32 o awdurdodau lleol wedi cofrestru.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod cyflwyniad wedi'i roi yn y cyfarfod diwethaf ar yr Ymgyrch/ Addewid Mae Fy Mhethau o Bwys lle roedd yr Aelodau wedi cytuno i lofnodi'r Addewid.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, yn dilyn y cyfarfod heddiw pe bai pawb yn bwriadu llofnodi'r Addewid, y byddai ffotograffau'n cael eu tynnu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch. Yn ogystal, roedd y Cyngor wedi diweddaru ei ganllawiau a'i bolisïau gyda chyfathrebiadau yn digwydd gyda staff Cyngor Dinas Caerdydd ac asiantaethau partner eraill i dynnu sylw at bwysigrwydd yr Ymgyrch a'r Addewid.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am y cysylltiadau rhwng Caerdydd fel awdurdod lleol unigol a'r consortia rhanbarthol ar gyfer mabwysiadu a maethu. Yn ogystal, a oedd cyfleoedd i'r awdurdod ddylanwadu tuag at allan yn ogystal ag ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod y GEIC yn gweithio'n agos gyda Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Mae'r cysylltiad yno ac mae'r addewid yn cynnwys ein holl blant sy'n derbyn gofal.

PENDERFYNWYD:

Cefnogi'r addewid.

32 : GWASANAETHAU LLES EMOSIYNOL AC IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC

Gwahoddodd y Cadeirydd Becci Ingram Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Iechyd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd – ac Ymgynghorydd Pwyllgor, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am brosiect Lles Emosiynol y Gwasanaethau Plant.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Nodwyd bod gostyngiad wedi bod yn yr amser a gymerwyd i gwblhau asesiadau a bod 90% o blant a phobl ifanc yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod. Gofynnodd yr Aelodau beth oedd yr amser aros ar gyfer ymyriadau. Dywedodd y swyddogion fod amseroedd aros estynedig ar hyn o bryd ar gyfer llwybrau ymyrryd - dros 28 diwrnod ond roedd camau'n cael eu cymryd i wella hyn. Un o'r datblygiadau gyda'r newid system gyfan yn cael ei chyflwyno oedd pwysigrwydd cysylltu asesu ac ymyrryd gyda'i gilydd i reoli capasiti. Roedd y Gwasanaeth wedi trosglwyddo i'r drws ffrynt asesu newydd ac roedd yn y broses o newid o restrau aros wedi'u trefnu'n feddygol i un rhestr aros unedig a dull gweithredu dan arweiniad anghenion gyda'r clinigwr cywir yn gweithio gyda'r person ifanc. Y canlyniad yw y byddai hyn yn mynd i'r afael ag anghenion y person ifanc o ran y math o ymyrryd yr oedd ei angen arno ar ei gyfer ef a'i rieni.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd strategaeth yn y dyfodol o ran hyrwyddo'r Gwasanaeth Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc drwy gydweithio â thimau'r Cyngor, meddygfeydd, fferyllfeydd ac ysgolion. Cytunodd y swyddogion fod strategaeth hyrwyddo ar gyfer y Gwasanaeth yn hanfodol a gyda'r Mewngymorth yn mynd yn fyw ac wedi'i ymgorffori yn yr ysgolion roedd hyn yn newid y naratif. Y cam nesaf oedd bod yn eglur ac yn rhagweithiol a rhannu'r neges ar draws Caerdydd a'r Fro.

- O gofio'r disgwyl hir am ddiagnosis a chynllun cymorth llawn, cododd yr Aelodau y mater o ba gymorth a oedd ar waith i'r plant a'r bobl ifanc hynny a pha mor gysylltiedig oedd yr Awdurdod â'r trydydd sector a phartneriaid eraill a'r dull partneriaeth a oedd yn bresennol yn y Gwasanaethau Plant. Trafododd yr Aelodau'r pwysigrwydd i blant â thrallod seicolegol nad oeddent yn cael eu derbyn gael lle diogel nad oedd mewn ysbyty nac mewn uned ddiogel, ond mewn cartref lle gallent gael y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

PENDERFYNWYD:

1. Derbyn yr adroddiad.
2. Anfon sylwadau'r Aelod at y swyddogion ar ffurf cofnodion.

33 : IECHYD A GWYBODAETH STATUDOL AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Gwahoddodd y Cadeirydd Becci Ingram Rheolwr Cyffredinol (Gwasanaethau Iechyd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd – Ymgynghorydd Pwyllgor) i roi cyflwyniad i'r Aelodau ar Iechyd a Gwybodaeth Statudol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y tîm Plant sy'n Derbyn Gofal (iechyd) yn rhan bwysig o'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ac yn darparu maes gwaith lle roedd gofynion iechyd statudol. Roedd gan blant mewn gofal ganlyniadau iechyd niweidiol felly nod yr asesiadau oedd gwella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd, yn ogystal â sicrhau bod anghenion iechyd a nodwyd yn cael eu gweithredu a'u monitro. Darparwyd y gwasanaeth gan dîm staffio bach yn cynnwys Pediatregwyr Ymgynghorol a Nyrs Arbenigol.

Rhoddwyd crynodeb a throsolwg i'r Aelodau o'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer monitro iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal a rôl y bobl allweddol wrth asesu a monitro anghenion iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys y Nyrsys Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal.

Nododd y Pwyllgor fod twf wedi bod yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gydag effaith uniongyrchol ar nifer yr asesiadau iechyd y mae angen i'r tîm eu cyflawni. Tan yn ddiweddar nid oedd y tîm wedi tyfu yn unol â'r twf yn y galw. Gan gydnabod y pwysau hyn, nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau gweithredu a amlinellwyd i'r Aelodau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am ystyriaethau a datblygiadau pellach.

Rhannodd y swyddogion stori claf 15 oed gyda nhw a oedd yn manylu ar ei brofiadau mewn gofal, dros gyfnod o 13 mlynedd, wedi'i hadrodd o safbwynt ei fam-gu. Clywodd yr Aelodau ei fod wedi pasio drwy bum lleoliad maeth yn ystod ei gyfnod mewn gofal gyda 5 teulu gwahanol a'i fod wedi dioddef cam-drin emosiynol. Pan ganfuwyd teulu o'r diwedd, dim ond pum wythnos y parhaodd gan arwain ato'n mynd yn ôl i ofal ac yna'n cael ei wahanu oddi wrth ei chwaer (hefyd mewn gofal). Arweiniodd ei brofiadau ato'n mynd i'w gragen yn emosiynol i'r pwynt lle na fyddai'n cysylltu ag unrhyw un nac unrhyw beth. Ar yr adeg hon, gwnaed trefniadau i Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA), gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr plant sy'n derbyn gofal ymyrryd. Gwnaeth pob un gysylltu. Dywedodd wrth ei fam-gu fod y nyrs plant sy'n derbyn gofal yn wych ynghyd â'r SAA a'r Gweithiwr Cymdeithasol. Roedd bellach yn hapus, yn gwenu ac yn gweithio tuag at ei arholiadau TGAU ac roedd am barhau mewn addysg lle'r oedd wedi rhoi'r gorau iddi o'r blaen.

Nododd yr Aelodau fod y stori yn amlygu'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau a phwysigrwydd gwasanaethau cofleidiol ar gyfer y plentyn. Cafodd ymyrraeth y nyrs plant sy'n derbyn gofal yn yr achos ei disgrifio fel ymyrraeth gyda'r help iawn ar yr adeg iawn - gan gael effaith gadarnhaol ar y plentyn 15 oed a bod yn drobwynt go iawn o ran gwneud gwahaniaeth. Nododd yr Aelodau y byddai'n ddiddorol deall y broses o wneud penderfyniadau yn yr achos cymhleth penodol hwn, manylion y cymorth cofleidiol a'r cymorth a roddwyd ar waith gan bartneriaid yn gynnar iawn ac efallai y byddai hyn wedi gwneud gwahaniaeth pe bai wedi digwydd sawl blwyddyn yn ôl.

Cafwyd trafodaeth wedyn yn dilyn stori'r claf. Pwysleisiwyd bod y stori wedi'i hysgrifennu o safbwynt y fam-gu ac nad oedd y manylion yn yr achos yn ffeithiau wedi'u gwirio'n unigol. Tynnodd y swyddogion sylw at bwysigrwydd cael ystod eang o safbwyntiau ac at y ffaith nad oedd safbwynt pob person yr un peth. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi gofyn am safbwyntiau nad oeddent bob amser yn gadarnhaol a bod canlyniadau dysgu o enghreifftiau o'r fath lle gallai'r Awdurdod fod yn gwneud pethau'n wahanol.

Ar ben hynny, roedd yr achos yn rhychwantu cyfnod o 15 mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu llawer o newidiadau a datblygiadau fel cyfarwyddiaethau Iechyd, Gwasanaethau Plant, y Cyngor a sefydliadau trydydd parti yn buddsoddi'n helaeth mewn gwasanaethau cymorth cynnar, ataliol gyda'r nod o atal y plant a'r bobl ifanc hynny rhag dod i mewn i wasanaethau statudol y Gwasanaethau Plant. Yn ogystal, pan oedd y plant a'r bobl ifanc hynny yn y gwasanaethau statudol, roedd hybiau ymyrraeth a hybiau cymorth lles emosiynol bellach ar waith a oedd yn rhagddyddio'r achos. Cyfeiriodd y swyddogion at y Gydweithfa Fabwysiadu a hefyd y cymorth sydd ar waith i frodyr a chwiorydd y plentyn neu'r person ifanc fel asesiad ymlyniad brodyr a chwiorydd, cymorth therapiwtig a gwaith taith bywyd i'r plant a'r bobl ifanc hynny.

Sicrhawyd yr Aelodau bod SAAau, a oedd wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer, wedi adolygu pob cynllun gofal unigol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal yn annibynnol. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd gwrth-darfu neu darfu cyn i unrhyw leoliad ddod i ben ac ar ôl i leoliad chwalu i ddeall yr hyn a oedd wedi mynd o'i le. Cynhaliwyd gwiriadau o ran unrhyw beth i'w wneud o ran cymorth i ofalwyr a pharu'r plant hynny â gofalwyr yn y dyfodol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd y byddai'r plant wedi bod yn rhan o achos llys a byddai unrhyw achosion a chynlluniau gofal wedi cael eu goruchwylio gan y broses lys. Byddai gwarcheidwad yn ei le hefyd a fyddai wedi bod yn cefnogi'r plant yn annibynnol. Byddai'r broses gwyno hefyd wedi

bod yn agored i'r teulu drwy gydol ei daith. Byddai'r plant a'u rhieni, a'u mam-guod a'u tad-cuod o bosibl, hefyd wedi cael yr hawl i eiriolaeth. Roedd gan blant a'u teuluoedd yr hawl i gael eiriolwr annibynnol os oedd ganddynt unrhyw bryderon o gwbl. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr ar bob lefel wahanol o ran gwaith gyda'r holl deuluoedd ac ar ôl i bethau gael eu huwchgyfeirio o ran nifer y lleoliadau'n chwalu, byddai adolygiad achos mewn perthynas â hyn.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau, o ran astudiaeth achos y plentyn 15 oed a oedd brechiadau ac apwyntiadau iechyd deintyddol wedi'u cynnwys. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o broblemau gyda theuluoedd yn mynd ar restr meddygfeydd iechyd deintyddol - dywedodd y swyddogion y byddai brechiadau'n cael eu cynnwys ond o ran apwyntiadau iechyd deintyddol byddai hyn yn cael ei ddilyn gyda'r tîm Gofal Sylfaenol o fewn Iechyd.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ffigurau/ amserlenni ar gyfer asesiadau o blant mewn ardaloedd eraill - yn benodol Bro Morgannwg ac awdurdodau lleol cyfagos eraill - dywedodd y swyddogion fod un amser aros ar gyfer Caerdydd a'r Fro i gyd gyda phlant yn cael eu hasesu gan y tîm waeth ble y cawsant eu lleoli.

- Gofynnodd yr Aelodau sut y cafodd y wybodaeth ei holrhain mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a deithiodd rhwng byrddau iechyd ac a fyddai modd rhoi mwy o wybodaeth ar y pasbort iechyd a'r hyn a olygai hynny - dywedodd y swyddogion fod un o'r nyrsys plant sy'n derbyn gofal (tîm o 7 nyrs) yn benodol yn gofalu am blant a deithiodd rhwng byrddau iechyd. Roedden nhw'n cysylltu'n gyson â'r plant hynny. Byddai rhywfaint o ymgysylltu yn digwydd yn lleol o fewn eu byrddau iechyd neu eu hymddiriedolaethau eu hunain pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei leoli yn Lloegr ond roedd nyrs plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd a'r Fro a oedd yn unigolyn cyson ym mywyd y plentyn. O ran y pasbort iechyd roedd hwn yn ddatblygiad newydd a oedd ar gam cynnar ar hyn o bryd. Yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor byddai'r swyddogion yn rhoi mwy o fanylion i'r Aelodau.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd archwiliad iechyd safonol yn cael ei gynnal gyda phob plentyn ar draws yr Awdurdod fel bod yr un nodau mesuradwy ar waith ac felly hefyd asesiad safonol - cadarnhaodd y swyddogion fod asesiad iechyd safonol yn cael ei gynnal ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal.

PENDERFYNWYD

1 Nodi'r adroddiad ar Iechyd a Gwybodaeth Statudol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal;

2. Anfon sylwadau'r Aelodau at y swyddogion ar ffurf cofnodion

34 : TROSOLWG ENFYS

Gwahoddodd y Cadeirydd Dr Libby Erin, Seicolegydd Arweiniol a roddodd i'r Aelodau Drosolwg o Enfys, Gwasanaeth dan arweiniad seicoleg i blant sy'n derbyn gofal.

Nododd yr Aelodau fod y gwasanaeth Enfys, y Gwasanaeth Trawma Datblygiadol gynt, wedi'i sefydlu ym mis Awst 2016 ac yn wreiddiol dim ond un Seicolegydd Clinigol rhan amser a oedd yn gweithio ynddo a ddaeth wedyn yn llawn amser ym mis Awst 2017. Roedd wedi tyfu ers y cyflwyniad diwethaf i'r Pwyllgor ac erbyn hyn roedd yn cynnwys tîm o tua 15 o weithwyr yn cynnwys Seicolegwyr, Gweithwyr Iechyd Meddwl Graddedig a Therapydd Galwedigaethol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gan Enfys fodel pyramid a esboniodd sut y cynigiwyd cymorth.

Byddai'r Aelodau yn ymwybodol o'r ffaith bod dros 1300 o blant yn derbyn gofal yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Er mwyn ateb y galw hwn, darparodd y gwasanaeth wasanaethau ymgynghori'n bennaf. Ar ôl i deulu neu blentyn gael cymorth ar un lefel, gallai symud i'r lefel nesaf pe bai'n cael ei ystyried bod angen cymorth mwy dwys. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod nifer y teuluoedd y mae Enfys yn gweithio gyda nhw ar bob lefel yn gostwng wrth fynd i fyny'r pyramid. Roedd y gwasanaeth yn cefnogi gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, athrawon, neu unrhyw un arall a oedd yn ymwneud â gofal plentyn, i gwblhau'r grŵp meithrin ymlyniad.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am y cymorth parhaus i deuluoedd a roddwyd gan Enfys fel a ganlyn:

- Asesu a llunio angen therapiwtig
- Yn seiliedig ar anghenion unigol plentyn, person ifanc neu deulu (dan arweiniad anghenion)
- Cymorth sy'n seiliedig ar Seicotherapi Datblygiadol Dyadig
- Mae aelodau'r tîm yn fedrus mewn amrywiaeth o fodelau therapiwtig, yn ogystal â gweithio integreiddiol (e.e. gwaith sy'n seiliedig ar chwarae, ailbrosesu a dadsensiteiddio symudiadau llygaid, therapi ymddygiad dialectig, Coeden Bywyd, therapi gwybyddol ymddygiadol sy'n seiliedig ar drawma, therapi derbyn ac ymrwymiad)

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am y gwaith y mae Enfys yn ei wneud ochr yn ochr ag asiantaethau eraill gan gynnwys:

- Goruchwylio nyrsys plant sy'n derbyn gofal bob 6 wythnos
- Goruchwylio'r gwasanaeth ôl-fabwysiadu bob 6 wythnos
- Cydleoli gyda thimau Dwyrain, Gogledd, De Caerdydd bob mis
- Cydleoli gyda'r gwasanaeth ôl-fabwysiadu bob 2 wythnos
- ARC – seicolegydd dynodedig wedi'i ymwreiddio yn y gwasanaeth ar ffiniau gofal

Nododd yr Aelodau fod 5 grŵp Enfys hyd yma, eleni, wedi cael eu rhedeg ar gyfer unigolion o Gaerdydd a'r Fro a bod Enfys wedi cynnal 246 o Sesiynau Cyngor a Chymorth yng Nghaerdydd ers mis Ionawr 2023.

Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r ffaith bod Enfys wedi cefnogi llawer o blant a phobl ifanc Caerdydd ac yn dymuno diolch am y gwahaniaeth cadarnhaol yr oeddent wedi'i wneud ac roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr hyn a wnaethant i gefnogi pawb.

PENDERFYNWYD:

1.Nodi’r Trosolwg o Enfys

2.Rhoi adborth ar sut mae'r gwasanaeth yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal; a yw hyn yn ddigonol ar gyfer nifer y plant sy'n derbyn gofal a sut y gellid ei adrodd i gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

35 : PROSIECT LLES EMOSIYNOL

Gwahoddodd y Cadeirydd Suki Bahara-Garrens a roddodd gyflwyniad i'r Aelodau ar y Prosiect Lles Emosiynol a oedd yn brosiect amlasiantaethol a sefydlwyd, o fewn y Trefniadau Partneriaeth Rhanbarthol, i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn argyfwng emosiynol. Amlinellodd y cyflwyniad i'r Aelodau y dull gweithredu a'r cynnydd hyd yma.

Nododd yr Aelodau y bu cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc ledled Caerdydd yn ystod COVID yn mynd i unedau achosion brys yn dilyn hunan-niweidio ac ymdrechion i gyflawni hunanladdiad. Er bod modd rhyddhau’r rhan fwyaf ohonynt yn ôl i'w cartrefi neu leoliadau blaenorol pan oeddent yn feddygol ffit, roedd nifer fach ond cynyddol o bobl ifanc nad oeddent yn bodloni meini prawf y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed neu gymorth cleifion mewnol lefel 4 gan nad oedd eu hanghenion yn cael eu disgrifio orau fel rhai'n gysylltiedig â 'salwch meddwl' ond roedd angen cymorth parhaus i'w galluogi i ddychwelyd yn ddiogel i fyw o fewn y gymuned.

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o nodau'r prosiect a oedd fel a ganlyn -

- Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn argyfwng emosiynol;
- Lleihau'r amser y mae plant a phobl ifanc yn ei dreulio ar y ward bediatreg
- Gwella gwaith cynllunio rhyddhau amlasiantaethol i sicrhau symudiad mwy diogel ymlaen
- Tîm clinigol cofleidiol i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned neu yn y llety sylfaen sefydlog.
- Addysg gan y ddau Awdurdod Lleol cysylltiedig ar gyfer y plant a'r bobl ifanc.
- Gwella gwaith cydweithredol rhwng Gwasanaethau Plant Caerdydd a Bro Morgannwg a’r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Mwy o hyder ymysg ymarferwyr wrth weithio gyda thrallod emosiynol neu salwch meddwl

Rhoddwyd manylion i'r Aelodau hefyd am y Tîm Cam i Lawr - Adferiad a Chartref sy’n cynnig llety ac allgymorth pendant. Clywodd y Pwyllgor astudiaeth achos o ferch 9 oed a oedd wedi cael ei rhyddhau o'r ysbyty i eiddo gyda chymorth clinigol. Roedd y ferch ifanc wedi dychwelyd i'r ysgol ers hynny a symud yn ôl i leoliad arall.

Gofynnwyd i’r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau faint o bobl ifanc y gellid eu lletya yn y tŷ a ddarparwyd gan y prosiect - dywedodd y swyddogion fod yr eiddo yn eithaf mawr gyda dwy ardal fyw ar wahân a dwy ystafell ymolchi ar wahân. Roedd dau berson yn

byw yno.  Gallai'r ardal gymunol a'r gegin fod ar y cyd ond byddai gan y bobl ifanc eu hystafell wely eu hunain a lle arall o fewn yr eiddo mawr hwnnw.

PENDERFYNWYD:

1.Nodi'r adroddiad ar y Prosiect Lles Emosiynol

2.Rhoi adborth ar unrhyw arsylwadau neu sylwadau

36 : DANGOSFWRDD PERFFORMIAD - CHWARTER 4 2022 - 2023

Gwahoddodd y Cadeirydd Matt Osbourne i gyflwyno'r Dangosfwrdd Perfformiad a roddodd i'r Aelodau'r Dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Atodiad A) a gytunwyd gan y Pwyllgor fel eitem agenda chwemisol sefydlog.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn amlinellu ystod o ddata allweddol o adrannau mewnol ac asiantaethau allanol a gafodd effaith ar fywydau plant sy'n derbyn gofal a'r bobl sy'n gadael gofal ac y byddai'n helpu Aelodau'r Pwyllgor i ddeall y gwasanaethau a'r sefydliadau a oedd yn cefnogi pobl ifanc â phrofiad o fewn mewn gofal yng Nghaerdydd.

Nododd yr Aelodau fod y dangosyddion perfformiad allweddol yn cynnwys data gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; y Gwasanaethau Plant; Dyfodol Disglair; y Gyfarwyddiaeth Tai; y Gyfarwyddiaeth Addysg; y System Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau gadael gofal/ gofal i'r glasoed.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddata mewn perthynas â'r bobl ifanc hynny a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ac a ofynnwyd i'r Awdurdod olrhain y gwahanol ganlyniadau ar gyfer y garfan honno o bobl ifanc. Yn ogystal, os oedd y cynllun peilot Incwm Sylfaenol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, beth oedd y canlyniadau dysgu a hefyd beth oedd yr Awdurdod wedi'i gasglu o'r hyn a oedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn i'r bobl ifanc gael gafael ar y cymorth ariannol. Dywedodd y swyddogion nad oedd data'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol wedi'i gynnwys yn y Dangosfwrdd Perfformiad ond roedd y plant a'r bobl ifanc hynny a oedd yn rhan o'r cynllun peilot yn cael eu holrhain a'u monitro hefyd gan Lywodraeth Cymru.  Ar ben hynny, roedd y penderfyniad i lansio'r cynllun peilot yn un cadarnhaol i sicrhau bod plant a phobl ifanc a oedd yn gadael gofal yn cael y canlyniad ariannol gorau posibl.

- O ran ffigurau lleoliad (targed o 9%), gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl dadansoddi'r ffigurau hynny i ddileu'r bobl ifanc hynny neu wahaniaethu rhwng y bobl ifanc hynny a oedd yn symud i drefniadau byw'n annibynnol i ganfod a oedd y ffigwr hwnnw'n is na 9%.  Byddai ystyried y rhai a oedd yn mynd trwy drefniadau byw'n annibynnol yn helpu i wybod a oedd naratif gwell nag a nodwyd gan y graff.

- Gwnaeth yr Aelodau godi'r mater o blant yn cael eu symud o gwmpas y wlad a'r posibilrwydd o golli brechiadau a phwysigrwydd sicrhau bod gwiriadau iechyd sylfaenol yn cael eu cofnodi.

- Cynhaliwyd trafodaeth ar Basport y Plentyn ac a fyddai'n bosibl mapio'r wybodaeth bwysig allweddol a gofnodwyd yn yr Adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal a'r Cofnod Lleoliadau Plant. Roedd gan y Gwasanaethau Iechyd eu systemau eu hunain ac roedd yn ymwneud â sicrhau bod ffordd o gyfuno'r cyfan fel ei fod mor dryloyw â phosibl. Dywedodd y swyddogion fod y wybodaeth yn eithaf hawdd ei hechdynnu ac wrth edrych ar ddata Iechyd nid oedd llawer iawn yn y Dangosfwrdd a chytunodd swyddogion y Gwasanaeth Iechyd i archwilio'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd a rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor. Nodwyd bod system ddigidol yn cael ei sefydlu a fyddai'n arwain at ddata mwy hygyrch.

- O ran gwaharddiadau gofynnodd yr Aelodau a oedd yr Awdurdod yn annog ysgolion i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol yn ogystal â darparwyr gofal preswyl neu faeth i sicrhau bod pob oedolyn allweddol yn cymryd rhan. Dywedodd y swyddogion fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r holl asiantaethau allweddol lle'r oedd hyd yn oed posibilrwydd y byddai gwaharddiad yn digwydd gyda'r diben o sefydlu cynllun/ cynnig i atal hynny rhag digwydd ac ystyried anghenion y person ifanc.

- O ran y newidiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gofynnodd yr Aelodau pa waith oedd yn cael ei wneud wrth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal drosglwyddo o Weithredu gan yr Ysgol a Mwy i'r systemau asesu a datganiadau newydd. Dywedodd y swyddogion fod athro cynhwysiant arbenigol a oedd yn ymwneud â chefnogi ac ysgrifennu'r cynllun datblygu unigol ar gyfer pobl ifanc ag ADY. Y broses oedd bod yr hysbysiad yn dod i law bod ADY ac yna byddai cyfres o gwestiynau yn cael eu trafod gyda'r holl asiantaethau o amgylch y bobl ifanc gan arwain at gynnal panel Cynhwysiant gyda chynllun gweithredu cytunedig.

- Mewn perthynas â'r Ap Mind of My Own, gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â Chynnig Rhagweithiol Cymru o Hawl Plant i Eiriolaeth ac y byddai hyn ar flaen y gad a bod yr ap yno fel cymorth atodol ac nid yn lle. Cytunodd y swyddogion fod yr ap yn ddefnyddiol iawn ac yn rhoi cyfle i blentyn a pherson ifanc rannu gwybodaeth ar adeg a oedd yn addas iddo ond roedd eiriolaeth seiliedig ar faterion proses y cynnig rhagweithiol yn hanfodol ac ni chymerodd yr ap le hyn mewn unrhyw ffordd.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch darparu gofal iechyd o ran nifer y meddygfeydd a'r boblogaeth sy'n tyfu. Dywedodd y swyddogion fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau blynyddol a oedd yn mynd i'r afael â newidiadau nid yn unig ym maes iechyd ond hefyd o ran ehangu tai yng Nghaerdydd a'r galw cynyddol a fyddai'n cael effaith ar blant. Yr hyn a oedd yn hanfodol oedd mapio'r darpariaethau hynny yn iawn gyda'r gwasanaethau. Nododd y Pwyllgor fod sgyrsiau cynnar yn dechrau ynglŷn â chynnig gwarantedig i blant sy'n derbyn gofal.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r ffigurau perfformiad a roddwyd

37 : RHAGLEN YMWELIAD AELODAU

Gwahoddodd y Cadeirydd Matt Osbourne i gyflwyno'r Rhaglen Ymweliadau Aelodau.

Cyfeiriwyd sylw'r Aelodau at Atodiad G a oedd yn cynnig drafft o ymweliadau awgrymedig i'r Pwyllgor. Gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent yn fodlon â'r rhestr a gyflwynwyd a gofynnwyd iddynt roi adborth gydag awgrymiadau ar gyfer unrhyw ddarpariaethau neu wasanaethau ychwanegol sy'n addas ar gyfer ymweliadau.

Nodwyd na fyddai'n bosibl yn achos llawer o'r darpariaethau i'r Pwyllgor cyfan fod yn bresennol. Enghraifft o hyn oedd Cartref y Plant a fyddai'n caniatáu i ddau aelod yn unig ymweld ar unrhyw un adeg. Ar gyfer rhai darpariaethau, fel Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd byddai sawl digwyddiad dros gyfnod yr haf gan alluogi nifer o aelodau'r pwyllgor i ymweld i gwrdd â'r staff.

Gofynnodd y Cadeirydd, pe bai'n rhaid i'r Aelodau ganslo ymweliad, a allent sicrhau eu bod yn rhoi gwybod am eu diffyg presenoldeb cyn gynted â phosibl er mwyn gallu cynnig y lle i fynychwr arall.

PENDERFYNWYD

1. Cytuno ar y rhaglen ymweliadau

2. Rhoi adborth ar unrhyw ymweliadau eraill ag unrhyw ddarpariaethau neu wasanaethau ychwanegol y teimlai'r Pwyllgor fyddai'n ddefnyddiol

38 : BLAENRAGLEN WAITH MAI 2023 - EBRILL 2024

Gwahoddodd y Cadeirydd Matthew Osbourne i gyflwyno'r adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Cyflawniad Addysgol, Cyflogaeth a Hyfforddiant yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD

1. Nodi cynnwys y Flaenraglen Waith..

39 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw eitemau brys i’w trafod.

40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol ddydd Llun 2 Hydref 2023 am 2.00pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm